**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Llywydd

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Pwrpas yr offeryn yw diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") i ganiatáu'r deuddydd cyntaf ar ddechrau tymor y gwanwyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 i gael eu dyrannu ar gyfer diwrnodau cynllunio er mwyn i ysgolion asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr. Bydd hefyd yn sicrhau bod ganddynt gynlluniau cadarn pe bai tarfu ar ddysgu ar y safle dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Heb y Rheoliadau hyn ar waith erbyn dechrau tymor y gwanwyn 2021-22, ni fydd ysgolion yn cwrdd â'r nifer ofynnol o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 fel y nodir yn Rheoliadau 2003.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language